Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Cynllyn Ffioedd a Mynediad 2025-2027

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg | This document is available in Welsh and English**

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

# Cynllun Ffioedd a Mynediad

| | |
|---|---|
| Enw'r sefydliad | **Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant** |
| Hyd y cynllun Ffioedd a Mynediad | 1 Awst 2025 i 31 Gorffennaf 2027 |

## Adran 1 – Lefel Ffioedd

### Adran 1.1 – Lefelau ffioedd neu bennu lefel ffioedd ym mhob lleoliad

(Paragraffau 85-92 yn y canllawiau)

| Lefel ffioedd | Lleoliad y cwrs |
|---|---|
| Uchafswm ffi a reoleiddir | **Campysau Cymru: Caerfyrddin, Abertawe, Llambed, Caerdydd**<br>* Myfyrwyr israddedig Cartref (gan gynnwys Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw)<br>* Gradd Meistr Integredig Cartref<br>* TAR Cartref |
| 20% o'r uchafswm ffi a reoleiddir | **Campws Cymru: Abertawe**<br>Myfyriwr Israddedig Cartref (gan gynnwys Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw) – Blwyddyn Ryngosod (blwyddyn mewn diwydiant) |
| Uchafswm ffi a reoleiddir | **Campysau Lloegr: Llundain a Birmingham**<br>Myfyrwyr Israddedig Cartref (gan gynnwys Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw) |
| Uchafswm ffi a reoleiddir | **Lleoliadau Allgymorth De Cymru: Pen-y-Bont ar Ogwr, Llanelli, Casnewydd, Pontypridd, Caerdydd**<br>* Myfyrwyr israddedig Cartref (gan gynnwys Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw)<br>*TAR Cartref |
| Uchafswm ffi a reoleiddir | **Darparwyr masnachfraint: Coleg Sir Gâr, Coleg Gŵyr, Grŵp Castell-nedd Port Talbot, Coleg Sir Benfro**<br>Myfyrwyr Israddedig Cartref (gan gynnwys Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw) |

Mae'r Brifysgol yn ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sy'n cydymffurfio gyda deddfwriaeth diogelu defnyddwyr, yn unol â'r canllawiau i ddarparwyr addysg uwch a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

Caiff uchafswm ffioedd dysgu yng Nghymru ar gyfer myfyrwyr israddedig Cartref llawn amser (LlA) (gan gynnwys TAR) eu llywodraethu gan Lywodraeth Cymru. Yr uchafswm ffioedd presennol y gellir ei godi ar fyfyrwyr o'r fath yw £9,250 y flwyddyn. Bydd yr uchafswm ffioedd y gellir eu codi yn berthnasol i fyfyrwyr o'r fath sy'n cychwyn rhaglen astudio yn 2025/26 a thu hwnt.

Gall y Brifysgol gynyddu ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau rhaglen astudio yn 2025/26 a thu hwnt yn flynyddol yn unol ag unrhyw ddiwygiadau i'r uchafswm ffioedd dysgu a osodir gan Lywodraeth Cymru.

Bydd ffioedd cyfanredol ar gyfer holl gyfnod y cwrs yn amodol ar hyd y rhaglen a p'un a oes cynnydd yn uchafswm y ffioedd dysgu a osodir gan Lywodraeth Cymru fel yr amlinellir uchod.

Byddwn yn hysbysu pob ymgeisydd a myfyriwr am lefel y ffioedd ac unrhyw gynnydd ar gyfer blynyddoedd astudio olynol cyn gynted ag y byddwn wedi derbyn cadarnhad gan Lywodraeth Cymru a byddwn yn cyhoeddi diweddariadau ar ein gwefan.

Byddwn yn hysbysu pob ymgeisydd a myfyriwr a fydd yn cael eu heffeithio am lefelau ffioedd ac unrhyw gynnydd cyn gynted ag y bydd cadarnhad wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru, a derbynnir cymeradwyaeth ar gyfer y Cynllun Ffioedd a Mynediad perthnasol gan CCAUC. Caiff diweddariadau eu cyhoeddi ar ein gwefan, bydd pob ymgeisydd a myfyriwr y bydd hyn yn effeithio arnynt yn derbyn e-bost a llythyr; caiff gwybodaeth am ffioedd dysgu eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol y caiff ymgeiswyr a myfyrwyr eu cyfeirio iddo trwy MyTSD, porth ymgeiswyr a chofrestru'r Brifysgol. Hefyd, caiff diweddariadau i lefelau ffioedd dysgu israddedig eu harddangos ar wefan UCAS a phorth cyllid myfyrwyr Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC).

## Adran 1.2 – Lefelau ffioedd cyfanredol

Bydd ffioedd cyfanredol ar gyfer holl gyfnod y cwrs yn amodol ar hyd y rhaglen a p'un a oes cynnydd yn uchafswm y ffioedd dysgu a osodir gan Lywodraeth Cymru fel yr amlinellir uchod, fodd bynnag gellid eu cyfrifo fel a ganlyn:

*Cyfradd y ffioedd dysgu llawn amser blynyddol* **X** *nifer disgwyliedig y blynyddoedd ar gyfer y rhaglen* **=** *cyfanswm ffioedd dysgu ar gyfer y rhaglen*
er enghraifft,

TystAU (mynediad 24/25): £9,000 X 1 = £9,000, neu

Gradd baglor (mynediad 24/25): £9,000 **x** 3 = £27,000, neu

Gradd baglor (mynediad 25/26): £9,250 ym mlwyddyn 1, gyda blynyddoedd 2 a 3 yn amodol ar uchafswm y ffi a ganiateir ar gyfer y flwyddyn honno.

Mae'r Brifysgol yn cyfathrebu gwybodaeth am ffioedd dysgu i'n dysgwyr trwy ein gwefan ar ein tudalennau cyllid, ac ar ein tudalennau Cynllun Mynediad Ffioedd. Caiff Cymorth Ariannol i Fyfyrwyr sydd ar gael ei gyfathrebu i fyfyrwyr trwy amrywiaeth o ddulliau. Mae'r tîm Cymorth Arian i Fyfyrwyr yn mynychu diwrnodau agored a diwrnodau blasu ac yn cwrdd â myfyrwyr a rheini (yn rhithiol a wyneb yn wyneb) cyn gwneud cais a chyn cyrraedd y

Brifysgol. Mae'r tîm yn ateb ymholiadau cyffredinol a phenodol am gyllid i fyfyrwyr, yn darparu canllawiau ar y broses ymgeisio am gyllid myfyrwyr, ac yn rhoi cyngor ar argaeledd a chymhwysedd mewn perthynas â bwrsarïau, ysgoloriaethau a chymorth ariannol ychwanegol PCYDDS.

Bydd myfyrwyr sy'n dechrau yn y Brifysgol yn derbyn llawlyfr rhagarweiniol a gwahoddiad i'w sesiwn gynefino cyn eu diwrnod cyntaf yn y Brifysgol. Mae'r llawlyfr yn cynnwys gwybodaeth gryno ar gymorth ariannol i fyfyrwyr, gan gynnwys sut i gael mynediad i gyngor ac arweiniad trwy'r tîm Cymorth Arian i Fyfyrwyr a dolenni i ragor o wybodaeth a ffurflenni cais am fwrsarïau perthnasol.

Mae'r broses gynefino i bob myfyriwr newydd yn cynnwys cyflwyniad i'r Gwasanaethau Myfyrwyr sy'n rhoi disgrifiad byr o fframwaith bwrsarïau'r Brifysgol ac yn eu cyfeirio at y tîm Cymorth Arian i Fyfyrwyr ar gyfer ymholiadau a chymorth. Mae manylion allweddol staff y tîm a manylion ei fframwaith bwrsarïau, gan gynnwys meini prawf cymhwysedd, dyddiadau ymgeisio a ffurflenni ar-lein, ar gael ar ein gwefan ac maent ar gael i'n myfyrwyr trwy ap Hwb PCYDDS.

Caiff gwybodaeth atgoffa ei dosbarthu'n flynyddol i fyfyrwyr sy'n dychwelyd yn rhan o weithgarwch cynefino eu cwrs. Mae ein fideos croeso a chyflwyniad i'r Hwb yn cynnwys gwybodaeth benodol am gymorth ariannol i fyfyrwyr. O bryd i'w gilydd, dosberthir e-byst i atgoffa myfyrwyr am fwrsarïau sydd ar gael a'u dyddiadau cau, ac mae systemau cyfeirio ar waith o Undeb y Myfyrwyr, yr Hwb Myfyrwyr a'r Athrofeydd i helpu myfyrwyr sy'n dweud bod ganddynt drafferthion ariannol i gael mynediad i gymorth unigol gan y tîm Cymorth Arian. Mae bot sgwrs yr Hwb yn gwneud atgyfeiriadau tu allan i oriau ar y wefan. Yn ogystal â'r uchod, rydym wedi cynnwys gwybodaeth yn ein prosbectws ac mewn cyhoeddiadau canolog eraill sy'n cysylltu i'r wefan a'r Hwb. Mae Paneli'r Gronfa Cymorth Ariannol i Fyfyrwyr a'r Bwrsari Cysylltedd Digidol yn cwrdd yn wythnosol trwy gydol y flwyddyn i gadarnhau cymhwysedd, asesu ceisiadau a dyfarnu cymorth. Mae'r panel yn cynnwys cynrychiolydd o Undeb y Myfyrwyr.

## Adran 2 – Partneriaeth Myfyrwyr

Yn unol â'n Siarter Myfyrwyr, mae'r Brifysgol yn ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gyda'i dysgwyr ac Undeb y Myfyrwyr i ddarparu profiad dysgu o ansawdd uchel. Ers cyflwyno'r cynlluniau ffioedd a mynediad, mae nifer o fodelau wedi cael eu harchwilio er mwyn sicrhau bod llais y dysgwr yn rhan annatod o broses datblygu cynlluniau a'r strategaethau buddsoddi cysylltiedig. Mae strategaethau cynrychioli ac ymgysylltu â myfyrwyr wedi'u hymgorffori'n gadarn ar draws y Brifysgol. Mae dau swyddog sabothol yn aelodau o Gyngor y Brifysgol ac mae gan holl bwyllgorau sefydlog y Cyngor, ac eithrio'r Pwyllgor Archwilio a Risg, aelodau sy'n fyfyrwyr. Mae'r rhain yn cynnwys y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformio, sy'n cynnal goruchwyliaeth lywodraethu o'r broses cynllunio a monitro ffioedd a pherfformiad y Brifysgol wrth fodloni ei hamcanion strategol yn fwy cyffredinol. Trwy Undeb y Myfyrwyr, caiff dysgwyr hefyd eu cynrychioli ar y Senedd (yr uwch gorff academaidd) a'i holl bwyllgorau sefydlog. Gall aelod o staff Undeb y Myfyrwyr (y prif Weithredwr fel arfer) fynd gyda swyddogion sabothol i gyfarfodydd pwyllgorau academaidd sy'n rhoi gwell parhad o ran ymagwedd ac yn cefnogi'r swyddogion sabothol wrth wneud cyfraniadau gwybodus a dylanwadol i benderfyniadau. Mae Undeb y Myfyrwyr hefyd yn cael ei gynrychioli yn y Gweithgor Cynllunio Ffioedd a Mynediad sy'n goruchwylio agweddau gweithredol y broses cynllunio ffioedd a mynediad ac mae'n derbyn Cynlluniau drafft ac adroddiadau monitro i'w cymeradwyo gan uwch swyddogion a llywodraethwyr.

Gan weithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr a thrwy dargedu pynciau penodol, mae'r Brifysgol wedi gwneud ymdrechion sylweddol i gael cymaint o fyfyrwyr â phosibl i gymryd rhan mewn arolygon boddhad myfyrwyr, ac i sicrhau bod deilliannau arolygon o'r fath yn cael eu defnyddio'n systematig i dargedu meysydd ar gyfer gwella a buddsoddi. Hefyd, defnyddir data arolygon i dargedu meysydd a grwpiau ffocws i archwilio materion ymhellach a chynllunio datrysiadau gyda dysgwyr. Gyda chydsyniad Undeb y Myfyrwyr, ac yn sgil lledaeniad daearyddol eang ein campysau, wrth ddatblygu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn canolbwyntiwyd ar yr adborth a gafwyd drwy'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr, Arolwg Ymgysylltu'r DU (UKES), Arolwg Profiad Ôl-raddedigion a Addysgir (PTES), Arolwg Profiad Ymchwil Ôl-raddedigion (PRES), Holiaduron Modwl, arolygon mewnol eraill ac

ymgynghoriadau ehangach a gynhaliwyd yn rhan o bolisïau a fframweithiau strategol penodol (e.e. y Strategaeth Cyfoethogi Dysgu ac Addysgu, y Cynllun Cydraddoldeb Hil, y Strategaeth Iechyd a Llesiant Myfyrwyr, a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol).

Mae gwaith Arweinwyr Tîm y Bartneriaeth yn ffynhonnell o wybodaeth barhaus i'r Brifysgol ynglŷn â phrofiad dysgwyr mewn sefydliadau partner (gan gynnwys ein dysgwyr AU sy'n astudio mewn lleoliadau AB), ynghylch unrhyw rwystrau at gyfranogiad mae dysgwyr yn eu hwynebu. Mae datblygiad y Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn wedi canolbwyntio ar yr adborth a gafwyd trwy'r mecanweithiau hyn.

Caiff canfyddiadau'r ymgynghoriadau hyn eu rhannu gyda'n Gweithgor Cynllun Ffioedd a Mynediad sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Undeb y Myfyrwyr, ac maent wedi'u hystyried wrth bennu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn. Mae mecanweithiau eisoes yn bodoli rhwng y Brifysgol a dysgwyr i roi adborth ar ganfyddiadau arolygon a'r camau a gymerwyd i ddatrys materion a amlygwyd. Mae'r Gweithgor Cynllun Ffioedd a Mynediad yn monitro cynnydd o ran y Cynllun. Mae cael cynrychiolaeth Undeb y Myfyrwyr ar y grŵp hwn yn sicrhau bod llais y myfyrwyr yn cael ei glywed o fewn ein gweithgarwch monitro a gwerthuso.

Mae'r Gweithgor Cynllun Ffioedd a Mynediad hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth gan ein Rheolwr Ehangu Mynediad i sicrhau aliniad rhwng ein Cynllun Ffioedd a Mynediad a'n hymrwymiadau o ran Ymgyrraedd yn Ehangach.

Mae Undeb y Myfyrwyr wedi gwneud y datganiad a ganlyn yn cefnogi'r Cynllun:

*"Yn Undeb y Myfyrwyr, rydym yn eithriadol o ddiolchgar am y cyfathrebu rydym wedi'i dderbyn gan y Brifysgol o ran ei thryloywder mewn perthynas â'r cynllun ffioedd a mynediad ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Bu'n gwbl glir bod llais y myfyriwr, trwy Undeb y Myfyrwyr, wedi bod yn flaenoriaeth wrth wneud penderfyniadau. Yn dîm o swyddogion, rydym yn ddiolchgar ein bod wedi cael ein cynnwys yn y trafodaethau am y cynllun ffioedd a mynediad, lle rydym wedi gallu herio'r brifysgol am ei phrosesau gwneud penderfyniadau ac wedi derbyn arweiniad clir ar sut bydd y cynllun yn edrych i bob myfyriwr sy'n astudio yn PCYDDS."*

Taya Gibbons, Llywydd y Grŵp 2023-2024.

## Adran 3 – Grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli

Mae'r grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli a nodwyd yn y Cynllun hwn yn barhad o'r rhai a nodwyd yn wreiddiol yn 2022/23, ac sy'n parhau i gael eu cynrychioli yng Nghynllun Ffioedd a Mynediad 2023/25 a 2025/27.

Er mwyn gallu adnabod y grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli gennym ar gyfer ein Cynllun Ffioedd a Mynediad, gwnaethom gynnal dadansoddiad o niferoedd cofrestru, cadw a chyrhaeddiad dysgwyr ar gyfer Grŵp PCYDDS ac ar gyfer addysg uwch yng Nghymru yn fwy cyffredinol. Gwnaeth y dadansoddiad hwn gadarnhau'r grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd o fewn Grŵp PCYDDS a ffocws blaenoriaethau yn genedlaethol ac o fewn y sector. Ffocws ein Cynllun yw cynyddu cyfranogiad dysgwyr yn y grwpiau hyn trwy adnabod rhwystrau at lwyddiant a pharhau i ddatblygu a darparu cymorth wedi'i dargedu.

Ein grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, a nodwyd hefyd gan CCAUC yn grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli mewn addysg uwch, yw:

- Dysgwyr rhan amser

- Dysgwyr o ardaloedd difreintiedig, gan gynnwys y rheiny yng ngwaelod ac yn nau gwintel waelod Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, a phobl o bob oed o ardaloedd Cyfranogiad Isel mewn Addysg Uwch y DU, myfyrwyr o bob oed sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Wrth gyflwyno Datganiad o Fwriad ein Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach (YE) i CCAUC gwnaethom gadarnhau y byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Bartneriaeth YE ranbarthol i gefnogi dysgwyr a myfyrwyr ym mhob modd a ffordd o fyw yn nau gwintel waelod Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), ac o fewn y ddau gwintel hyn yn ardal y Bartneriaeth YE, y sawl sydd yn:

- bobl ifanc ôl-16 sy'n dysgu hyd at lefel 4, yn ogystal ag oedolion dros 21 oed heb gymwysterau lefel 4;
- dysgwyr a myfyrwyr ag anabledd;
- dysgwyr a myfyrwyr o gymunedau ethnig lleiafrifol; a
- dysgwyr a myfyrwyr sy'n dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys cefnogi dysgu ail iaith a diwylliannau Cymreig.

Mae'r grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yma sydd wedi'u seilio ar ein cenhadaeth, diben a phoblogaeth myfyrwyr nodedig yn cynnwys:

- Dysgwyr sy'n datgan anabledd (ni waeth ble maent yn byw)
- Dysgwyr ethnig lleiafrifol (ni waeth ble maent yn byw)
- Dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys cefnogi dysgu ail iaith a diwylliannau Cymreig (ni waeth ble maent yn byw)
- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Caiff ein darpariaeth a'n hymrwymiad i YE eu hesbonio yn ein strategaethau ehangu mynediad, ac mae hyn alinio gyda'r Cynllunio Ffioedd a Mynediad hwn. Mae ein harfer sefydliadol YE wedi'i seilio ar asesiad o effaith cydraddoldeb parhaus, a bod datblygiadau yn 'gweithredu yn ysbryd' dyletswydd cymdeithasol-economaidd Deddf Cydraddoldeb (2010) ac yn ystyried egwyddor, nodau a ffyrdd o weithio cynaliadwyedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). I gryfhau'r ymrwymiad i'r ddarpariaeth ehangu mynediad mae'r Brifysgol yn parhau â'i buddsoddiad mewn Rheolwr Ehangu Mynediad a thîm Darparu Ehangu Mynediad.

Mae arweinydd y sefydliad ar gyfer y ddarpariaeth YE yn aelod o grŵp llywio Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De Orllewin Cymru (PYEDOC). Mae hyn yn galluogi i'r brifysgol weld natur y gweithgareddau a gynllunir ac a ddarperir gan PYEDOC sydd yn ei dro'n galluogi i gynllun y sefydliad alinio'n agos gyda gweithgareddau'r bartneriaeth trwy osgoi dyblygu a chael trosolwg o'r holl weithgareddau a ddarperir i'r gwahanol grwpiau targed. Caiff un Swyddog Ehangu Mynediad ei ariannu'n llawn gan y bartneriaeth i sicrhau bod yr holl weithgareddau a gynllunnir yn cyflenwi ei gilydd ac yn rhoi'r gwerth gorau am fuddsoddiadau a wneir. Yn ogystal â hyn, mae'r Brifysgol yn ariannu pedair rôl ychwanegol sy'n cyfrannu at weithgarwch ehangu mynediad, gan brofi ein hymrwymiad i'r agenda hwn ymhellach.

Caiff ein hymrwymiad i annog dysgwyr i ddatgan anabledd ei amlinellu yn ein Strategaeth Iechyd a Llesiant (ar gael yma)

Mae'r Strategaeth yn cynnwys gwybodaeth bwysig ar y camau mae'r Brifysgol yn eu cymryd i sicrhau bod iechyd a llesiant myfyrwyr yn cael eu blaenoriaethu fel bod pob un yn gallu ffynnu a chyrraedd ei botensial. Mae'n mabwysiadu canllawiau Datganiad Polisi Llesiant ac Iechyd mewn Addysg Uwch (2019) CCAUC, ac yn ymgorffori nifer o fframweithiau allweddol y sector, gan gynnwys Universities UK: Stepchange Mentally Healthy Universities (2020), Student Minds: University Mental Health Charter (2019), Universities UK / Papyrus: Suicide Safer Universities (2018) a'r Fframwaith Prifysgolion Iach.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) (2020-24 a 2024-2028) y Brifysgol yn amlinellu ein hamcanion a nodau sefydliadol. Mae'r CCS yn cynnwys Cynllun Cydraddoldeb Hil sy'n cefnogi ymrwymiad y Brifysgol i ddarparu amgylchedd dysgu a gweithio cynhwysol, heb ragfarn na gwahaniaethu, lle caiff

ein holl staff a dysgwyr eu cefnogi, eu parchu a'u grymuso i wireddu eu potensial llawn. Hefyd, mae'n ymgorffori'n llawn egwyddorion Siarter Cydraddoldeb Hil Advance HE ac yn mabwysiadu argymhellion Ymdrin ag Aflonyddu Hiliol mewn Addysg Uwch UUK. Ym mis Hydref 2021, gwnaeth y Brifysgol fabwysiadu 5 egwyddor Siarter Cydraddoldeb Hil (SCH) Advance HE yn ogystal â Zero Racism Wales, a'i nod, yn rhan o'i hymrwymiadau a amlinellir yn y cynllun hwn, yw gwneud cais am ddyfarniad SCH Efydd erbyn mis Gorffennaf 2025.

Caiff ein hymrwymiad i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys cefnogi dysgu ail iaith a diwylliannau Cymreig, ei danlinellu gan Strategaeth y Gymraeg y Brifysgol. Mae'r Strategaeth yn cynnwys ymrwymiad cadarn i sicrhau cyfleoedd i ddysgu ac astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â Strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Llywodraeth Cymru. Mae cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg hefyd yn sicrhau bod y Brifysgol yn darparu amgylchedd ac ethos cefnogol ar gyfer unigolion sy'n dysgu'r iaith neu'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym yn ymrwymo i ddarparu cyfleoedd cyfartal i bob unigolyn, waeth beth fo'u cefndir, i gael mynediad i gwrs sy'n gweddu i'w gallu a'u dyheadau. Mae ein proses dderbyn yn caniatáu i ni ystyried gwybodaeth ychwanegol trwy ddata cyd-destunol er mwyn ein helpu i adnabod potensial unigolyn i lwyddo. Ceir rhagor o wybodaeth ar sut rydym yn defnyddio data cyd-destunol ar ein gwefan, yma.

## Adran 4 – Amcanion sy'n berthnasol i gefnogi cyfleoedd cyfartal a hyrwyddo AU

### Adran 4.1 – Cyfleoedd Cyfartal

| | |
|---|---|
| Amcan 1 | Cyfoethogi hyrwyddo a diogelu mynediad teg i addysg uwch o grwpiau a dangynrychiolir |
| Amcan 2 | Gwella mynediad i addysg Gymraeg |
| Amcan 3 | Cynyddu dilyniant, cadw myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir a'u galluogi i gwblhau rhaglenni. |

### Adran 4.2 – Hyrwyddo addysg uwch

| | |
|---|---|
| Amcan 1 | Sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn derbyn profiad dysgu o ansawdd uchel, cefnogol a chynhwysol sy'n eu galluogi i gyrraedd eu potensial llawn. |
| Amcan 2 | Datblygu a chyfoethogi ein partneriaethau a chonffederasiynau gyda sefydliadau eraill, i wneud yn fawr ar addysg uwch a chyfleoedd dilyniant i ddysgwyr. |
| Amcan 3 | Cryfhau cyflogadwyedd Graddedigion Cymru |

## Awdurdodi'r cais cynllun ffioedd a mynediad i CCAUC

Trwy awdurdodi'r cais cynllun ffioedd a mynediad, mae'r corff llywodraethu:

i. yn cadarnhau ei fod yn parhau'n sefydliad sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru a'i bod yn elusen;

ii. wedi gweld ac ystyried tystiolaeth briodol i gefnogi'r datganiadau a wneir yn y cais hwn;

iii. yn cadarnhau y bu ymgynghori addas gyda'i myfyrwyr, sef y rhai sy'n astudio yn y sefydliad a gyda darparwyr eraill lle darperir addysg ar ei ran;

iv. yn cadarnhau bod y wybodaeth a ddarperir yn y cais cynllun ffioedd a mynediad hwn yn gywir a chyfredol, adeg ei hysgrifennu, a'i bod wedi'i seilio ar ddata y gellir ei ddilysu;

**v.** yn cadarnhau: **[dileer un datganiad neu fwy, fel y bo'n briodol]**

a. ei fod yn dderbyniol i CCAUC ddefnyddio gwybodaeth/data ariannol, ansawdd a/neu arall sydd ganddo am sefydliad a reoleiddir yn gyfredol, ni waeth p'un a yw'r wybodaeth/data wedi'i ddarparu'n wreiddiol at ddibenion rheoleiddio o dan Ddeddf 2015;

~~b. ei fod yn dderbyniol i CCAUC ddefnyddio gwybodaeth/data ariannol, ansawdd a/neu arall sydd ganddo am sefydliad a reoleiddir yn gyfredol, ni waeth p'un a yw'r wybodaeth/data wedi'i ddarparu'n wreiddiol at ddibenion rheoleiddio o dan Ddeddf 2015;~~

~~c. it is submitting new, up-to-date, more recent information/data to inform HEFCW's assessment;~~

vi. yn deall bod CCAUC yn cadw'r hawl i ymweld â'r sefydliad er mwyn cael gwell dealltwriaeth o gymhwysedd mewn perthynas â threfnu a rheoli materion ariannol, y data a gyflwynir ar gynlluniau ffioedd a mynediad a/neu ansawdd yr addysg a ddarperir ar, neu ar ran, y sefydliad;

vii. yn deall bod yn rhaid iddo roi i CCAUC ac/neu asiant CCAUC, wybodaeth, cymorth a mynediad i'w gyfleusterau a chyfleusterau cyrff eraill sy'n darparu addysg uwch ar ei ran;

viii. yn deall y gall CCAUC gynnal, neu drefnu bod asiant yn cynnal, adolygiad mewn perthynas ag ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran y sefydliad, a rhaid i'w gorff llywodraethu ystyried unrhyw gyngor a roddir iddo gan CCAUC, neu'r corff a benodwyd gan CCAUC at y diben hwn;

ix. yn cadarnhau bod yr <u>holl</u> addysg a ddarperir gan y sefydliad, neu ar ei ran, waeth beth fo lefel neu leoliad y ddarpariaeth, wedi'i hystyried yn y cais cynllun ffioedd a mynediad hwn;

x. yn cadarnhau bod gan y sefydliad risg isel o fethu'n ariannol dros y tymor canolig a'r hirdymor;

xi. yn cadarnhau bod y cyfrifon yn cael eu harchwilio bob blwyddyn gan archwiliwr cofrestredig ac nad yw'r archwiliwr cofrestredig yr un cwmni a/neu unigolyn a baratôdd y cyfrifon;

xii. yn cadarnhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadlaethau a Marchnadoedd (ACM) ar gyfer Addysg Uwch;

xiii. yn deall bod rhaid anrhydeddu unrhyw ymrwymiadau ariannol i fyfyrwyr a wneir yn y cynllun ffioedd a mynediad, a gymeradwyir gan CCAUC;

xiv. yn cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi'r un gyfran o incwm ffioedd israddedig llawn amser i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a hyrwyddo addysg uwch ac na fydd yn lleihau'r buddsoddiad i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal sydd â'r bwriad o gefnogi' rhai a dangynrychiolir mewn addysg uwch yn unig.

xv. yn cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi ei gyfraniad sefydliadol yn y Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach sydd wedi'i alinio â'i Strategaeth Ymgyrraedd yn Ehangach a Chynllun Gweithredu cytûn;

xvi. yn cadarnhau y bydd yn cynnal lefelau cymorth myfyrwyr;

xvii. yn cadarnhau y bydd y sefydliad yn sicrhau bod copi o'r cynllun ffioedd a mynediad ar gael i'w fyfyrwyr mewn unrhyw fformat;

xviii. yn cadarnhau y bydd y sefydliad yn cyfeirio'i fyfyrwyr yn glir i brosesau cwynion CCAUC;

xix. yn cymryd pob cam rhesymol i gefnogi grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ac yn astudio cyrsiau ôl-raddedig;

xx. yn ystyried y ffordd orau i fuddsoddiadau gefnogi'r myfyrwyr y cafodd y pandemig Covid-19 yr effaith fwyaf arnynt lle nad ydynt eisoes wedi'u hadnabod yn grwpiau a dangynrychiolir; ac

xxi. yn rhoi ystyriaeth ddyledus i unrhyw ganllaw a gyhoeddir gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil wrth iddo ymgymryd â'i ddyletswyddau mewn perthynas â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, yn arbennig mewn perthynas ag amddiffyn dysgwyr, ymgysylltu â dysgwyr, cyfleoedd cyfartal, a chefnogi a hyrwyddo llesiant ei fyfyrwyr a'i staff.

| Cyflwyno cais cynllun ffioedd a mynediad i CCAUC[1] | |
|---|---|
| Dyddiad cymeradwyaeth y Corff Llywodraethu: | 23 Mai 2024 |
| Llofnod awdurdodedig y Corff Llywodraethu: |  Emlyn Dole, Cadeirydd y Cyngor |
| Dyddiad: | 23 Mai 2024 |

[1] Dim ond fersiynau a gymeradwywyd gan CCAUC o gynlluniau Ffioedd a Mynediad y caiff sefydliad eu cyhoeddi ar ei wefan.